

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr G. Ball, M.J. Hooper, J. Protheroe a N.J. Wood; a G. Chapman, M. Evans a N. Ireland (Aelodau Lleyg).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

101 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

102 PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y dylid penodi G. Chapman (Aelod Lleyg) yn Gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol.

103 PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y dylid penodi N. Ireland (Aelod Lleyg) yn Is-gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol.

104 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorydd E. Goodjohn.

105 COFNODION –

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2025 fel cofnod cywir.

106 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

107 ADOLYGIAD O BOLISI PRYDERON A CHWYNION CORFFORAETHOL (CYF) –

Gwnaeth yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gweithredol - Cysylltiadau Cwsmeriaid ac a gymeradwywyd gan y Cabinet, ddiwygiadau i'r Polisi Cwynion a Phryderon Corfforaethol yn dilyn adolygiad cyffyrddiad ysgafn ac roedd wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried.

Roedd y diwygiadau a wnaed i'r Polisi yn dilyn yr adolygiad yn gyfyngedig ac yn ceisio gwella eglurder gwybodaeth a sicrhau bod manylion cyswllt yn gyfredol. Ni fu unrhyw newidiadau i'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli cwynion.

Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Cwynion a Phryderon Corfforaethol Enghreifftiol Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2013. Gallai achwynwyr a oedd yn parhau'n anffodlon ar ôl Camau 1 a 2 y Polisi gyfeirio eu cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a chan fod y broses honno yn aros yn ddigyfnewid, roedd mabwysiad y Cyngor o'r un peth yn parhau felly.

Er nad oedd y canllawiau wedi newid a bod y broses ar gyfer delio â chwynion yn parhau heb ei newid, roedd angen adolygiad rheolaidd o'r Polisi am y rhesymau canlynol:

- Gwelliant Parhaus: Gallai diweddarau'r Polisi helpu i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd a gwella effeithiolrwydd.
- Perthnasedd ac Eglurder: Wrth i'r Cyngor ddatblygu, gall rolau, gweithdrefnau a phwyntiau cyswllt newid. Roedd adolygiadau rheolaidd yn cadw'r Polisi yn gywir, yn glir ac yn berthnasol i weithrediadau cyfredol.
- Ymddiriedaeth Dinasyddion a Thryloywder. Dangosodd Polisi wedi'i gynnal yn dda i drigolion fod y Cyngor yn gwerthfawrogi adborth ac yn cymryd cwynion o ddifrif, gan feithrin ymddiriedaeth a gwella perthnasau.

Diben y Polisi oedd sicrhau bod profiadau'r achwynwyr yn gyson a bod ymateb teg yn cael ei roi i godi pryderon a chwynion gyda holl wasanaethau'r Cyngor.

Ym mis Ebrill 2022, gweithredodd y Cyngor y Polisiâu Gweithredoedd Annerbyniol gan Ddinasyddion a Chyfyngau Cymdeithasol. O ganlyniad i'r adolygiad "cyffyrddiad ysgafn" diweddaraf o'r Polisi:

- Roedd gwybodaeth ychwanegol wedi'i hychwanegu mewn perthynas ag ymdrin â Chwynion Cymraeg.
- Er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael mynediad hawdd at ddatrysiad effeithiol ac amserol i'w cwyn, roedd gwybodaeth gyfeirio wedi'i hychwanegu ar gyfer cael mynediad at fathau o gwynion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Polisi Cwynion a Phryderon Corfforaethol, fel Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Yn seiliedig ar adborth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, roedd yr adran 'Beth sy'n Gyfystyr â Chwyn' a'r hyn nad oedd wedi'i gynnwys wedi'u diweddarau a'u hegluro.
- Roedd atodiad wedi'i ychwanegu yn manylu ar ffyrdd amgen o gael mynediad at brosesau cwyno.

Cyfeiriodd N. Ireland (Is-gadeirydd) at dudalen 8 y polisi a oedd yn amlinellu gwersi dysgu a oedd yn cael eu hystyried gan y tîm rheoli, a gofynnodd a oedd crynodeb 6 mis yn ddigonol. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol - Cysylltiadau Cwsmeriaid fod diweddariadau cryno yn cael eu hadrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol bob chwarter oherwydd nifer y cwynion. Yn ychwanegol, roedd gwybodaeth amser real ar gael i reolwyr a oedd yn benodol i'w gwasanaeth eu hunain trwy ddangosfwrdd.

Gofynnodd N. Ireland hefyd a oedd digon o naratif yn y polisi i ddangos sut roedd y Cyngor yn bwriadu dysgu o gwynion.

Gwnaeth y Cynghorydd J. Protheroe sylw ar y 26% o gwynion a gafodd eu categorio yn anghywir, boed hynny oherwydd eu bod yn eistedd y tu allan i'r polisi neu drwy ddiffiniad. Roedd yn bwysig i drigolion gael eu gwneud yn ymwybodol a oedd eu cwyn yn gŵyn mewn gwirionedd. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol - Cysylltiadau Cwsmeriaid y byddai pob cwyn yn cael ei adolygu yn y lle cyntaf i sicrhau ei fod yn ymwneud â'r polisi, ac yna byddai'n cael ei gyfeirio at y gwasanaeth perthnasol.

Dywedodd G. Chapman (Cadeirydd) fod y polisi wedi'i ysgrifennu'n dda ond roedd angen rhai diwygiadau fel y nodwyd gan N. Ireland a'r Cynghorydd Protheroe.

Wedi hynny, cafodd ei

PENDERFYNWYD – Y dylid cyfeirio barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r polisi at y Cabinet. Y sylwadau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Ychwanegu eglurder pellach mewn perthynas â rheoleidd-dra cwynion sy'n cael eu hadrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a fyddai'n digwydd bob chwarter yn hytrach na bob chwe mis.
- Cynnwys naratif i amlinellu yn y polisi sut y byddai'r Cyngor yn dysgu o gwynion a dderbynnir.
- Cynnwys naratif yn y polisi i amlinellu beth oedd cwyn a sut y byddai'r Cyngor yn mynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

108 RISG GORFFORAETHOL: DIWEDDARIAD CHWARTER 4 (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i'r Aelodau o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 (Ebrill 2024–Mawrth 2025). Roedd yr adroddiad hefyd yn adlewyrchu ystyriaeth y Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS) o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn dilyn cyfnod Chwarter 3 yn ymwneud â nifer o'r risgiau yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Roedd gan y Gofrestr Risgiau Corfforaethol gyfanswm o 12 risg a nodwyd gydag un risg yn sgorio'n uchel iawn, pedair risg yn sgorio'n uchel, pum risg yn sgorio'n ganolig/uchel, a dwy risg yn sgorio'n ganolig.

Bu cynnydd yn y risg Cyflawni Prosiectau Adfywio Mawr yn dilyn ailwerthusiad o'r risg hon ac effaith oedi allanol yn ymestyn amserlenni prosiectau. Roedd y risgiau a oedd yn weddill wedi aros yn statig yn ystod y chwarter.

Roedd pedair risg ar y Gofrestr y rhagwelwyd y byddent yn cynyddu dros amser. Y rhain oedd: Gwybodaeth a Seiberddiogelwch, Newid yn yr Hinsawdd ac Argyfwng Natur, Galw a Chapasiti Gofal Cymdeithasol ac Asedau Ffisegol.

Gwnaeth y Cynghorydd M. Hooper sylw ar y diffyg iaith a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r effeithiau trychinebus tebygol sy'n gysylltiedig â rhai risgiau. Cwestiynodd y Cynghorydd Hooper hefyd hyfywedd rhai o brif brosiectau adfywio'r Cyngor, fel Marina'r Barri a'r diffyg rhagwelediad canfyddedig. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol - Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad y gellir edrych ar yr iaith a ddefnyddir wrth adrodd risg i sicrhau bod graddfa'r risg a'r effeithiau posibl yn glir ynghyd â'r hyn yr oedd y Cyngor yn ei wneud i liniaru risgiau. O ran y risg cyflawni Prosiectau Adfywio Mawr, roedd yn bwysig ystyried bod hyn yn ymddangos ar gofrestr risgiau'r Cyngor y llynedd pan adolygwyd y gofrestr ac y byddai'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r maes gwaith hwnnw yn cael eu hadolygu, eu diweddarau a'u hadrodd.

Gofynnodd N. Ireland (Is-gadeirydd) am eglurhad o'r matrices sgorio risgiau ac yn enwedig mewn perthynas â dwy risg, y risg Seiberddiogelwch Gwybodaeth a'r risg symud o System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC), yr oedd gan y ddau sgorau effeithiolrwydd rheoli o bedwar, ac eto roedd y sgôr risg weddilliol dim ond yn gostwng o 12 i 9 ar gyfer y risg Diogelwch Gwybodaeth ac o 16 i 9 ar gyfer SWGCC. Gan fod y fethodoleg sgorio yn fater a godwyd o'r blaen gan y Pwyllgor, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'r mater o ran eglurder a'r matrices sgorio risg yn cael ei gymryd i ffwrdd ac y byddai cyfleoedd i ymgysylltu ag aelodau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried.

Cyfeiriodd M. Evans at ymosodiadau seiber diweddar yn erbyn cwmnïau a chynghorau mawr a gofynnodd a oedd y mathau hynny o ymosodiadau yn cael eu hystyried fel rhan o risg Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor. Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor yn ymwybodol iawn yn ddigidol o ran yr ymosodiadau a ddigwyddodd ar sefydliadau eraill a'r effaith ar awdurdodau lleol eraill. Roedd briffiau wedi'u rhoi i'r TAS a swyddogion eraill o ran y goblygiadau a'r mesurau diogelu yr oedd angen iddynt fod ar waith.

Dywedodd G. Chapman (Cadeirydd) y byddai diweddariad pellach ar Brosiectau Adfywio Mawr yn cael ei roi yn yr adroddiad diweddarau chwarterol nesaf, ond roedd mater arall mewn perthynas â lefel y wybodaeth gyhoeddus sydd ar gael a'r costau cyfreithiol o'r tendro ar gyfer dymchwel hen orsaf bŵer Aberddawan, a fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar y swm sydd ar gael ar gyfer prosiectau adfywio neu fuddsoddi eraill sy'n cael eu canlyn gan Fargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd.

Mynegodd y Cadeirydd bryder hefyd ynglŷn â chytundebau'n mynd dros y dyddiad dod i ben a gorwariant ar gyfer rhai prosiectau lle roedd y costau wedi dyblu o'r amcangyfrifon cychwynnol, felly roedd yn rhywbeth yr oedd angen i'r Pwyllgor ei fonitro mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid nodi'r ymateb i benderfyniadau'r Cabinet yn dilyn ystyriaeth o sylwadau a gyfeiriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Atodiad B).
- (2) Y dylid nodi sefyllfa risgiau corfforaethol Chwarter 4 (Ebrill 2024-Mawrth 2025) a amlinellwyd yn yr adroddiad Crynodeb Risg (Atodiad A).
- (3) Y dylid cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at y Cabinet i'w hystyried. Y sylwadau sy'n ymwneud â'r canlynol:
 - Pryder ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau adfywio mawr fel Marina'r Barri.
 - Materion ynghylch Bargaen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd ac effaith y setliad cyfreithiol sy'n ymwneud ag orsaf bŵer Aberddawan.
 - Gorwariant a gorwariant contract ar gyfer rhai prosiectau lle roedd y costau wedi dyblu o'r amcangyfrifon cychwynnol.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

109 ARCHWILIAD GOSOD AMCANION LLESIANT CYNGOR BRO MORGANWG (CAC) –

Fel rhan o raglen waith archwilio flynyddol y Cyngor ar gyfer 2024/25, cynhaliodd Archwilydd Cyffredinol Cymru archwiliad a ystyriodd i ba raddau yr oedd y Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lunio gosod ei amcanion lles. Manylwyd ar ganfyddiadau allweddol yr adroddiad yn Atodiad A.

Ceisiodd yr archwiliad roi sicrwydd ar ba raddau yr oedd y Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion lles a nodi cyfleoedd i'r Cyngor ymgorffori'r egwyddor ymhellach wrth osod amcanion lles yn y dyfodol.

Cafodd yr archwiliad ei amseru gyda datblygiad Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor (Bro 2030) a'i gynnal mewn amser real. Gwnaeth hynny alluogi Archwilio Cymru i arsylwi ar gyfnodau allweddol y broses, cael mewnwelediad, archwilio tystiolaeth, a rhoi adborth interim a helpodd i wella camau dilynol gwaith.

Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad hwn, 'Roedd y Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio gosod ei amcanion lles gan gynnwys defnydd effeithiol o ddata, aliniad â chynlluniau ariannol a dull cryf o gynnwys'.

Nid oedd unrhyw argymhellion ffurfiol wedi'u gwneud mewn perthynas â'r archwiliad.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys yr adroddiad gydag unrhyw argymhellion a sylwadau yn cael eu cyfeirio at y Cabinet ar gyfer goruchwyliaeth.

Dywedodd y Cyngorydd M. Hooper ei fod o'r farn bod datgysylltiad rhwng adroddiad cadarnhaol fel hwn a'r profiadau bywyd i drigolion y Fro. Roedd yn rhaid i'r Cyngor hefyd fod yn ofalus i sicrhau ei fod yn gwneud gwaith i ddatrys rhai o'r materion i'r bobl fwyaf agored i niwed.

Wedi hynny cafodd ei

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid nodi canfyddiadau archwiliad Archwilio Cymru o faint y mae'r Cyngor yn cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion lles.
- (2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Cabinet i'w oruchwyllo.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

110 CRYNODEB ARCHWILIAD BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANWG 2024 (CAC) –

Cyflwynodd yr adroddiad Grynodb Archwilio Blynnyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg, gan amlinellu'r gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024.

Roedd cynnwys Crynodeb Archwilio Blynnyddol y Cyngor ar gyfer 2024 (Atodiad A) yn gadarnhaol. Roedd nifer o argymhellion wedi'u gwneud mewn perthynas â gwaith archwilio lleol (5) a chenedlaethol (12) a wnaed yn ystod y cyfnod fel rhan o ddyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol.

Roedd yr argymhellion ar gyfer adolygiadau lleol yn cynnwys Comisiynu (3), Cynaliadwyedd Ariannol (2), a Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r ysbyty (yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg (7).

Ni chyhoeddwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r adolygiad gosod amcanion lles. Ystyriodd yr adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau a byddai'n llywio cynlluniau archwilio'r Cyngor yn y dyfodol.

Mewn perthynas ag adroddiadau lleol a chenedlaethol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod, roedd gwasanaethau perthnasol y Cyngor wedi ystyried y canfyddiadau yn yr adroddiadau wrth iddynt gael eu cyhoeddi, a lle roedd camau gweithredu priodol wedi'u cynnwys yn nhraciwr rheoleiddiol y Cyngor drwy gydol y flwyddyn.

Roedd cynnydd yn erbyn y camau rheoleiddiol allanol yn cael ei fonitro trwy'r Bwrdd Mewnwelediad Strategol, y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet wrth i waith i fynd i'r afael â hwy fynd rhagddo.

Roedd cynnydd yn erbyn camau rheoleiddiol y Cyngor hefyd yn cael ei fonitro gan gydweithwyr Archwilio Cymru drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'r Cynllun Rheoleiddiol Blyneddol.

Cododd y Cynghorydd M. Hooper oedi wrth gymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd, a oedd yn ddiweddariad fel rhan o agenda cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Chwefror 2025. Gofynnodd y Cynghorydd Hooper a oedd unrhyw arwydd o bryd y byddai cyfrifon y Fargen Ddinesig yn cael eu cwblhau. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r datganiad cyfrifon drafft oedd 30 Mehefin, a bod y Cyngor (ar ddyddiad y cyfarfod) yn dal i aros am y cyfrifon drafft ar gyfer y Fargen Ddinesig, ac felly roedd y Cyngor yn trafod gydag Archwilio Cymru a Chynghorau eraill ynghylch sut y dylid cyflwyno'r cyfrifon.

Ymhellach i'r ymholiad a godwyd gan y Cynghorydd Hooper, dywedodd M. Jones (Archwilio Cymru) ei fod yn ymwybodol o'r recriwtio a'r newidiadau diweddar a fyddai, gobeithio, yn helpu i baratoi cyfrifon y Fargen Ddinesig. Roedd hefyd yn bwysig cydnabod, wrth i'r prosiectau a gefnogir gan y Fargen Ddinesig ddod yn fwy llwyddiannus, y byddai effaith sylweddol cyfrifon y Fargen Ddinesig ar y Cynghorau cyfansoddol yn cynyddu. Felly, roedd yn rhaid ystyried y defnydd o gyfrifon amcangyfrifedig yn ofalus.

Dywedodd G. Chapman (Cadeirydd) fod y diweddariad a roddwyd yn ôl ym mis Chwefror yn nodi bod llawer o faterion cymhleth i'w goresgyn, ac felly ei bod yn bwysig i'r materion hynny gael eu datrys gan y Fargen Ddinesig fel mater o flaenoriaeth. Cytunwyd felly i bryderon y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael eu cyfeirio at y Cabinet, ac i'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor, at Archwilydd Cyffredinol Cymru, i fynegi pryderon ynghylch yr oedi wrth gwblhau cyfrifon y Fargen Ddinesig. Byddai'r mater hefyd yn cael ei godi mewn cyfarfod y Swyddogion Adran 151.

Wedi hynny cafodd ei

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi cynnwys adroddiad Crynodeb Archwilio Blyneddol Cyngor Bro Morganwg 2024.

(2) Y dylid cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at y Cabinet i'w hystyried. Y sylwadau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Pryder ynghylch yr oedi wrth gwblhau cyfrifon Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd, a effeithiodd hefyd ar gwblhau datganiad cyfrifon Cyngor Bro Morgannwg.

(3) Y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru i fynegi pryder y Pwyllgor ynghylch yr oedi wrth gwblhau cyfrifon Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd, y dylid eu cynhyrchu'n fwy amserol.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Mynegi pryderon i'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch yr oedi wrth gwblhau cyfrifon Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd

111 DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU CHWARTER 4 2024/5 – CYNGOR BRO MORGANWG (CAC) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno diweddariad Chwarter 4 rhaglen waith Archwilio Cymru fel sy'n cyd-fynd â Chynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2024.

Amlinellodd Atodiad A gynnydd Chwarter 4 ar raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru.

Mewn perthynas â gwaith archwilio ariannol, roedd datganiad cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2023/24 wedi'i gwblhau gyda barn archwilio ddiamod wedi'i rhoi. Roedd gwaith cynllunio wedi dechrau ar gyfer archwilio Cyfrifon 2024/25 gan ymgynghori â Swyddog Adran 151 y Cyngor a byddai'r gwaith archwilio yn dechrau ar ôl derbyn y Datganiad Cyfrifon wedi'i lofnodi, a ragwelwyd ar 31 Hydref 2025.

Mewn perthynas â gwaith archwilio perfformiad 2023/24, roedd adroddiadau terfynol wedi'u cyhoeddi ar yr adolygiadau thematig o drefniadau Llywodraethu'r Gwasanaeth Cynllunio, Cynaliadwyedd Ariannol, a Chomisiynu a Gosod Amcanion Lles.

Roedd gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg ar gyfer 2024/25 yn parhau i fynd rhagddo yn dilyn gweithdy gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol ar 4 Chwefror 2025. Roedd yr adolygiad lleol o drefniadau cwynion y Cyngor yn parhau.

Roedd nifer o astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio ar gyfer 2024/25, ac roedd gwaith maes ar y gweill ar yr adolygiadau o Lety Dros Dro, a Chynllunio Cyfalaf mewn Llywodraeth Leol. Roedd yr adolygiad o Wasanaethau Plant wrthi'n cael ei gwmpasu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, fe'i

PENDERFYNWYD –

- (1) Y bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.
- (2) Y bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w oruchwyllo.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

112 ARCHWILIO CYMRU: CYNLLUN ARCHWILIO CYNGOR BRO MORGANWG 2025 (CAC) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno Cynllun Archwilio Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2025, a atodwyd yn Atodiad A.

Mae'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2025 yn nodi cyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol a'r gwaith a wneir gan dîm Archwilio Cymru ar draws archwiliadau ariannol, perfformiad a statudol eraill drwy gydol y flwyddyn.

Nododd y Cynghorydd M. Hooper bwysigrwydd cysylltu'r adolygiad o drefniadau craffu ag adolygiad mewnol ar effeithiolrwydd datrysiad cyfarfodydd hybrid y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, G. Chapman, at dudalen 9 a risgiau Datganiad Ariannol Sylweddol a thudalen 13 a Chydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (CbCDdC) a nododd fod trafodion a balansau CbCDdC hefyd yn dod yn fwyfwy cymhleth ac felly roedd perygl o gamddatganiad sylweddol yn natganiad ariannol y Cyngor. Roedd hynny'n rhywbeth yr oedd angen ei ystyried yn ofalus.

Wedi hynny cafodd ei

PENDERFYNWYD –

- (1) Y bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.
- (2) Y bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w oruchwyllo.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

113 ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL 2024/25 (PGAMR) –

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheoli'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Roedd hefyd yn hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am waith a pherfformiad Archwilio Mewnol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2024-25. Rhoddwyd y wybodaeth hon i gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Tynnwyd sylw at y canlynol hefyd:

- Cyflawnwyd 85% o'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25 yn erbyn targed o 80%,
- Roedd 94% o farnau sicrwydd naill ai'n Sylweddol neu'n Rhesymol;
- Dim ond 3 barn Sicrwydd Cyfyngedig oedd i'w cael.

Yn Atodiad A roedd Adroddiad Archwilio Mewnol Blyneddol 2024-25 a oedd yn manylu ar berfformiad, barnau ac argymhellion Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a gynorthwyodd i ffurfio Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor.

O'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25 ac o ystyried ffynonellau sicrwydd eraill, barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2024-25 oedd 'Sicrwydd Rhesymol'.

Roedd yr archwiliadau hynny a roddodd farn archwilio yn ystod y flwyddyn wedi'u rhestru yn Atodiad 1, roedd y sefyllfa fanwl yn erbyn y cynllun archwilio yn Atodiad 2, Atodiad 3 oedd y datganiad sefyllfa monitro argymhellion ac Atodiad 4 oedd yr holiadur a gyhoeddwyd ar ôl cwblhau pob archwiliad.

Cyfeiriodd N. Ireland at y Siarter Archwilio Mewnol yn ddiweddarach yn yr agenda a oedd yn sôn am adroddiadau blyneddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys gwybodaeth am y rhaglen gwella sicrwydd ansawdd. Gofynnodd N. Ireland am eglurhad a oedd y wybodaeth honno wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Cwestiynodd N. Ireland hefyd y gyfradd arolwg boddhad. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol nad oedd cyfeiriad at y rhaglen sicrhau ansawdd yn yr adroddiad, ond bod cyfeiriad at yr hunanasesiad a gynhaliwyd yn flynyddol ac at yr asesiadau allanol a gwblhawyd yn ôl yn 2022/23. Byddai cynnwys adroddiadau yn y dyfodol yn cael ei adolygu.

O ran y gyfradd boddhad arolwg, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth ei bod yn cynnwys ymatebion i'r holl gwestiynau, a gafodd eu bwydo i algorithm a gyfrifodd y canrannau ar gyfer pob cwestiwn. Pe bai unrhyw gwestiwn yn derbyn llai na chyfradd boddhad o 90%, yna byddai hynny'n cael ei ymchwilio yn fwy manwl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Protheroe at yr adroddiad Barn Sicrwydd Cyfyngedig ar gyfer yr archwiliad Gwaith Gwerthuso a Dyfarnu Tendrau Dilynol - Gwasanaethau Adeiladau a gofynnodd pam fod y sefyllfa yn parhau'n ddigyfnewid. Gofynnodd y Cynghorydd Protheroe hefyd pam fod yr archwiliad yn canolbwyntio ar dendro yn unig a gofynnodd pam nad oedd yn edrych ar y broses o'r dechrau, h.y. o hysbysebu a hysbysiadau ac ati. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod ail Farn Sicrwydd Cyfyngedig yn olynol wedi'i chyhoeddi yn 31 Mawrth 2025. Roedd bwriad i gynnal adolygiad dilynol fel rhan o'r cynllun gwaith archwilio ar gyfer 2025/26. Nodwyd bod cynnydd wedi'i adrodd gan y gwasanaeth gyda hyfforddiant pwrpasol wedi'i roi i

reolwyr. Roedd ymweliad archwilio wedi'i gynllunio ar gyfer Chwarter 2 a fyddai'n edrych ar yr amgylchedd rheoli.

O ran yr holl broses o amgylch caffael, byddai hynny'n cael ei asesu o ran risg o fewn proses cynllun archwilio'r Cyngor. Byddai'r archwiliad hwn wedi ystyried pryderon a nodwyd ychydig flynyddoedd yn ôl yn y gwasanaeth penodol hwn, felly roedd yn briodol canolbwyntio adnoddau archwilio ar y maes penodol hwnnw.

Canmolodd y Cynghorydd M. Hooper yr hyfforddeion archwilio graddedig am orffen eu harholiadau a gwnaeth gynnig llongyfarchiadau iddynt. Nododd y Cynghorydd Hooper hefyd bwysigrwydd sicrhau bod yr adolygiad archwilio i gyfarfodydd pwyllgorau hybrid yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

Dywedodd N. Ireland ei bod yn gadarnhaol gweld y gyfradd foddhad yn cynyddu a hefyd gwnaeth gefnogi sylwadau'r Cynghorydd Hooper am y graddedigion yn cwblhau eu harholiadau a dywedodd hefyd ei bod yn dda gweld ehangder y sgiliau a'r profiadau technegol a astudiwyd a fyddai'n helpu'r gwasanaeth i ddatblygu.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) Y bod Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25, gan gynnwys Barn Flynyddol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor, cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg 2024/25, yn cael ei nodi.

(2) Y bod staff y Tîm Archwilio yn cael eu llongyfarch am eu gwaith caled a llongyfarchiadau yn cael eu hanfon at yr aelodau staff hynny sydd wedi cwblhau eu cymwysterau.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

114 SIARTER Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL 2025-26 (PGAMR) –

Nododd yr adroddiad fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (GAMRh) yn sefydlu sefyllfa gweithgarwch archwilio mewnol ym mhob Cyngor ynghyd â llinellau adrodd. Roedd yn ddogfen ffurfiol a ddiffiniodd bwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb gweithgareddau archwilio mewnol.

Y Pennaeth Archwilio Mewnol oedd yn gyfrifol am adolygu'r Siarter a'i chyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pob Cyngor yn flynyddol i'w hadolygu a'i chymeradwyo yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (SAMB).

Un o'r rolau allweddol a ddangosodd oruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.

Roedd Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (GAMRh) wedi'i hadolygu ar gyfer 2025-26 i sicrhau ei bod yn adlewyrchu gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (SAMB) newydd a'i bod yn parhau'n berthnasol i'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â'r GAMRh.

Daeth y SAMB i rym yn y sector cyhoeddus yn y DU o 1 Ebrill 2025; gwnaethant ddisodli Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Byddai'r SAMB yn cael eu hategu gan Nodyn Cymhwyso a Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ar Lywodraethu Archwilio Mewnol.

Cwestiynodd N. Ireland y diffiniad o 'y bwrdd' ar dudalen 3 a gofynnodd a oedd angen eglurhad pellach mewn perthynas â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n darparu'r swyddogaeth archwilio mewnol. Yn ogystal, cyfeiriodd N. Ireland at adnoddau a hyfedredd a hyfforddiant ar gyfer archwilwyr, a gofynnodd a fyddai'n ddefnyddiol ychwanegu gofynion safonau hyfforddiant newydd fel hyfforddiant moeseg bob 6 mis. Yn olaf, awgrymodd N. Ireland y gallai hefyd fod yn ddefnyddiol bod yn fwy eglur o ran y staff yn cael mwy o gyfrifoldeb i ymgysylltu â'r broses adolygu archwilio. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y term 'bwrdd' yn adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir gan y SAMB, sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer y Cyngor. Byddai'r diffiniad yn cael ei adolygu ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf, yn ogystal â naratif mewn perthynas â hyfforddiant a'r cyfrifoldeb i staff ymgysylltu.

Wedi hynny cafodd ei

PENDERFYNWYD – BOD Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2025-26 fel y'i hatodir yn Atodiad A yn cael ei gymeradwyo.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

115 STRATEGAETH FLYNYDDOL A CHYNLLUN YN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL 2025-26 (PGAMR) –

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol sefydlu cynlluniau ar sail risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch archwilio mewnol, yn gyson â nodau'r sefydliad. Dylai'r cynllun archwilio ar sail risg gwmpasu amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor gan gynnwys risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol cyn belled ag y bo'n ymarferol.

Roedd ystyried Strategaeth Archwilio a Chynllun ar Sail Risg Blynnyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Roedd y Strategaeth Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer 2025-26 wedi'i hatodi yn Atodiad A ac roedd y Cynllun ar Sail Risg Blynnyddol ar gyfer 2025-26 wedi'i atodi yn Atodiad B yr adroddiad.

Dangosodd y Strategaeth sut y byddai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu a'i ddatblygu yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Byddai'r Strategaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n flynyddol.

Roedd y cynllun yn rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r gwaith i'w wneud a fyddai'n darparu digon i allu rhoi barn ar ddiwedd 2025-26.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at yr adolygiadau mewnol o ran cyfarfodydd hybrid a newidiadau craffu, a gofynnodd a fyddai unrhyw groesi rhwng y ddau ynghyd â chroesi gyda'r adolygiad craffu allanol yn cael ei gynllunio gan Archwilio Cymru. Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y ddau adolygiad wedi'u cario ymlaen i'r cynllun newydd, ac y byddai deialog gydag Archwilio Cymru fel y gallai'r adolygiadau ategu ei gilydd yn hytrach na dyblygu gwaith ei gilydd.

Gofynnodd N. Ireland a fyddai cwmpas yr adolygiad o gyfarfodydd hybrid yn cynnwys yr holl gyfarfodydd Pwyllgor. Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth y byddai cwmpas yr adolygiad yn cynnwys ystod y Pwyllgorau. Byddai'r holl randdeiliaid yn cael eu hystyried, er enghraifft trwy gwblhau arolwg.

Gofynnodd N. Ireland a oedd unrhyw ffordd y gallai'r Pwyllgor dderbyn unrhyw fath o arweiniad ar ba archwiliadau dros y flwyddyn sy'n debygol o gael eu cwblhau neu eu gwrthio yn ôl. Dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth fod y cynllun o flaen y Pwyllgor yn seiliedig ar adnoddau a'r hyn y gobeithiwyd ei gyflawni. Y targed archwilio oedd cwblhau 80% o'r adolygiadau ond roedd llawer o newidynnau nad oeddent yn hysbys ar hyn o bryd. Byddai gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r Pwyllgor cystal ag y gallai fod yn y cynnydd rheolaidd yn erbyn adroddiad y cynllun.

Holodd M. Evans gynnydd yr archwiliad i Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth, gan fod adolygiad o'r maes hwnnw wedi'i gynnal gan Estyn, yr ystyriwyd bod digon o sylw wedi'i roi. Roedd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau o'r farn bod meysydd eraill o flaenoriaeth i'r tîm archwilio edrych arnynt. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y materion ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ymwneud â chyllid a chapasiti yn hytrach na'r amgylchedd rheoli.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, y Pwyllgor

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft (Atodiad A) a'r Cynllun Archwilio Blynnyddol yn Seiliedig ar Risg ar gyfer 2025-26 (Atodiad B).

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

116 RHAGLEN WAITH YMLAEN 2025/26 (PGAMR) –

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl.

Derbyniodd adroddiadau a chyflwyniadau drwy gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwnnw ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, cyflwynid Blaenraglen Waith ym mhob cyfarfod, gan nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Roedd y Flaenraglen Waith ar gyfer 2025/26 yn Atodiad A.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai diweddariad mewn perthynas â Chyfrifon y Fargen Ddinesig yn cael ei symud ymlaen o fis Chwefror i fis Hydref. Yn ogystal, byddai adroddiad diweddar ar yr archwiliad o Waith Gwerthuso a Dyfarnu Tendrau Dilynol - Gwasanaethau Adeiladau.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am i gofnod olrhain penderfyniadau/camau gweithredu gael ei gyflwyno yn rheolaidd, a fyddai'n cael ei ddatblygu gan y Gwasanaethau Democrataidd.

Wedi hynny, cafodd ei

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo'r rhestr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 21 Gorffennaf, 2025.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.